

Serameg

Clai yw un o'r defnyddiau hawddaf i fodelu ag o ac mae'r rhan fwyaf o blant wedi chwarae ag o ar ryw adeg, hyd yn oed i ddim ond ffurfio 'nadroedd' drwy rollo'r deunydd rhwng eu dwylo.

Mae yna lawer o wahanol ffyrdd o drawsnewid clai yn llestri cyffredin defnyddiol, yn gerfluniaeth a gwrthrychau addurniadol. Gellir caledu'r clai drwy ei adael i sychu yn yr haul neu ei danio mewn olyn hyd dymheredd uchel ac yna ei orffen drwy wydro ac addurno. Fe esbonnir rhai o'r prosesau isod:

Cerfio: Mae clai'n ddeunydd meddal iawn sy'n ei wneud yn hawdd ei gerfio. Mae yna ystod eang o offer a dulliau y gellir eu defnyddio i fodelu cerfluniau a llestri neu i gymhwyso manylion arwyneb ac addurniad. Maent yn cynnwys cyllyll, offer â phen weiren, sbatwlau, llifiau, mynawydau, gwllân dur a hyd yn oed gelfi cartref. Bydd y rhan fwyaf o wneuthurwyr yn ymgynnull casgliad o offer y gallant eu defnyddio, yn dibynnu ar hoffterau personol ac ar y dasg dan sylw: cafnu, crafu, endorri, slaesio, llyfnu, torri etc. I gael y canlyniadau gorau, dylai'r clai fod yn galed fel lledr. Fe wnaiff y gwneuthurwr ddysgu drwy brofi a methu, pa offer sy'n addas a faint o bwysau sydd ei angen i gynhyrchu'r effaith a ddymunir wrth gerfio.

<http://ceramicartsdaily.org/free-gifts/ceramic-carving-tool-techniques-bringing-the-ceramic-surface-to-life/>

Y broses o danio – pan fydd y pot yn gwbl sych mae'n barod i gael ei danio'n anwydrog mewn olyn. Bydd y tanio cychwynnol hwn yn cael gwared ag unrhyw ddŵr o'r clai fel y gellir gwydro'r darn heb iddo droi'n ôl yn fwd a thorri. Ar ôl gwydro, rhoddir ail daniad i'r llestr a hynny'n ei wneud yn ddwrglos ac mae'n rhoi gorffeniad gloyw i'r gwydredd. Mae yna lawer o ddulliau o danio yn cynnwys:

- **Raku** – fe dynnir y pot o'r olyn ac yntau'n wynias ac yna fe'i plymir mewn dŵr oer neu lwch lli er mwyn creu effaith mân graciau ar y gwydredd.
- **Llestri caled** – cânt eu tanio hyd dymheredd uwch na phriddlestri, gan aeddfedu'r clai a'r gwydredd yr un pryd. Bydd y gwydredd yn rhyngweithio â'r clai i ffurfio haen wydredd/glai integrol.
- **Llestri pridd:** crochenwaith wedi'i wneud o glai, wedi'i gymysgu'n aml â silica, cwarts, ffelsbar etc. Mae angen ei wydro i'w wneud yn ddwrglos.
- **Tanio â phren** – Mae seramegau sydd wedi'u tanio â phren yng ngwraidd gwareiddiad, gan i danio agored (ar y ddaear heb olyn) esblygu i orchuddio tanau syml â strwythurau brics wedi'u tanio. Mae'r olyn Japaneaidd anagma yn fath hynafol o olyn crochenwaith sydd wedi'i danio â phren lle mae angen cyflenwad parhaus o danwydd ar gyfer tanio, gan fod pren a deflir i'r olyn boeth yn cael ei dreulio'n gyflym iawn.
- **Tanio â nwy** – bydd yn caniatáu i'r crochenydd reoli cymhareb yr ocsigen i'r nwy. Bydd amddifadu'r olyn o ocsigen yn creu atmosffer a elwir yn 'rydwythiad' lle gellir cynhyrchu carbon monocsid. Y broses o losgi ocsigen sydd wedi'i gyfuno'n gemegol yn y clai a'r mwynau gwydrog sy'n rhoi eu nodweddion unigryw i'r seramegau sydd wedi'u tanio â fflam naturiol.
- **Datblygwyd olynau** trydan yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, maent yn awr yn cynnwys olynau trydan wedi'u rheoli gan gyfrifiaduron. Gan eu bod yn gallu tanio i dymheredd sydd wedi'i ragosod ac i amserlenni cymhleth mae'r artist grochenydd unigol yn gallu gweithio ar ei ben ei hun.



Lowri Davies

Gwydro: defnyddir toddiant hylif o fwynau wedi'u malu'n fân i orchuddio crochenwaith. Fe drochir y crochenwaith mewn gwydredd neu gellir ei chwistrellu neu ei baentio arno. Yn ystod y tanio bydd yn ymdoddi i'r clai i greu arwyneb sy'n anhydraidd. Gweler: http://www.howtomakepottery.com/glazing_and_firing.html

Adeiladu â llaw: dyma'r dulliau mwyaf cyffredin o wneud crochenwaith â llaw:

- **Torchi** – mae wedi ei ddefnyddio i wneud llestri clai am filoedd o flynyddoedd. Mae'r dull yn caniatáu i'r crochenydd adeiladu a llunio waliau drwy dorchi 'nadroedd' hir o glai a rhoi un dorch ar ben un arall hyd nes y cyflawnir yr uchder a'r ffurf a ddymunir. Yn aml bydd llestri torchog â 'phot pinsh' yn sail i adeiladu arno.
- **Pinsio** – gwneud 'pot pinsh' yw un o'r dulliau symlaf a hynaf. Gan ddechrau â phelen o glai, fe bwysir bodiau i mewn i'r canol, ac yna fe grëir waliau'r pot drwy binsio'r ochrau rhwng y bysedd a'r bodiau a throi'r bêl yn barhaus yn eich llaw. Yna fe wthir y pot ar arwyneb fflat i greu gwaelod.

Adeiladu slabiau yn golygu rholio lwmp o glai ar arwyneb fflat â rholbren rhwng dau stribed o bren o'r un trwch, i sicrhau bod y slab yn cael ei rollo allan yn wastad. Pan fydd y clai wedi sychu ac yn galed fel lledr, fe dorrir y slab â chyllell finnog i'r siapiau a ddymunir i gael eu gosod drwy bwysu'r ymylon llaith at ei gilydd. Gweler: <http://www.lakesidepottery.com/HTML%20Text/Methods%20of%20Handbuilding.htm>. <https://www.youtube.com/watch?v=u-dldKI-exl>

Gwasgu mowldiau yw'r dull o ffurfio gwrthrychau drwy bwysu'r clai meddal i fowld â'r bysedd. Gwneir mowldiau fel rheol o blastr ac y maent yn arbennig o ddefnyddiol i wneud yr un ffurfiau dro ar ôl tro. Gellir eu gwneud yn hawdd â llaw neu eu prynu gan gyflenwyr seramegau. I gael gwybodaeth a chyfarwyddiadau ar gyfer gwneud mowldiau gwasgu gweler: <https://www.youtube.com/watch?v=um0GLs-ahkw> <http://annakeiller.com/tag/press-moulding>

Clai papur (clai-ffeibr yn yr UDA) yw unrhyw gorff clai lle mae ffibrau sydd wedi'u prosesu (papur yw'r mwyaf cyffredin) wedi'u hychwanegu. Gellir gwneud llestri pridd, teracota,

crochenwaith caled, porslen a tsieni asgwrn yn glai papur. Mae'r broses o danio ar gyfer clai papur yn debyg i danio clai confensiynol. Bydd amnewid peth o'r clai am ffeibr yn lleihau màs thermol clai, a hynny yn ei dro'n lleihau ymhellach yr ynni sy'n ofynnol i danio'r gwaith, a bydd y gwrthrych terfynol yn pwysu llai na chlai confensiynol.

Castin slip: dull o greu seramegau o fowld plastr. Caiff y slip castio (clai hylif) ei dywallt i'r mowld a bydd y clai'n sychu i'w siâp wrth i'r plastr amsugno'r dŵr.

Llusgo slip – yw cymhwysiad llinellau o slip i arwyneb clai gan ddefnyddio dosbarthwr â blaen main (yn debyg i drwynell addurno cacennau). O ganlyniad, bydd yr addurniad sydd wedi'i godi'n ychwanegu gweadedd gweledol i'r seramegau. Gweler: <https://www.youtube.com/watch?v=Nk4zNN05c68>

Tafllu – daw'r term o'r gair Hen Saesneg 'throwen' sy'n golygu 'i droi'. Rhoddir lwmp o glai ar ganol olwyn sy'n troi a bydd y crochenydd yn gwthio'r deunydd i fyny'n gôn ac yna i lawr i'w ganol â bodiau i ffurfio llestr. Fe dynnir y gwaith sydd wedi'i orffen oddi ar yr olwyn â thorwr weiren. Mae angen ymarfer i ddysgu sut i reoli clai a chyflymder yr olwyn er mwyn cynhyrchu pot perffraith. <http://lakesidepottery.com/Pages/Pottery-tips/Throwing-a-pot-Lakeside-Pottery-Tutorial.htm>

Tasgau

Chwaraewch â chlai! Pwyswch bethau i mewn i slab fydd wedi'i rollo i greu gweadeddau, gwasgnodau a phatrymau (ee cregyn, tecstilau, darnau arian, papur wal etc). Gallech dorri o gwmpas y darnau mwyaf diddorol i wneud matiau diod addurniadol.

Gwylwch grochenydd wrth ei waith! Gallech ymweld â stiwdio neu weithdy a siarad am wahanol brosesau neu gallech wyllo fideo (<http://www.wimp.com/claypottery/>)

Holwch am wahanol wydreddau.

Gwnewch bot o dorchau o glai – os nad oes gennych odyn, defnyddiwch glai sy'n sychu yn yr aer fel 'Fimo' neu 'Das'.

Adnoddau Pellach

Connell, Jo, *The Potter's Guide to Ceramic Surfaces*, Apple Press 2002
Turner, Anderson, *Surface Decoration Techniques*, Amer Ceramic Society, 2014
Mattison, Steven, *The Complete Potter: The Complete Reference to Tools, Materials and Techniques for all Potters and Ceramicists*, Apple Press, 2003
Cooper, Emmanuel, *Ten Thousand Years of Pottery*, The British Museum Press, 2002
Cooper, Emmanuel, *Contemporary Ceramics*, Thames & Hudson, 2009
Leach, Bernard, *A Potter's Book*, Faber and Faber, 2011

www.vam.ac.uk/page/c/ceramics/
www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/archif-arddangosfeydd/



Gweithdai Catrin Howell yng Nghanolfan Grefft Rhuthun

Gwaith mewn Ffocws: Susan O'Byrne

Lamb, 2012



Susan O'Byrne, *Lamb*, 2012

'Mae'r ffordd y byddaf yn gwneud fy ngwaith yn perthyn i'r ffordd yr oeddwn yn gwneud pethau pan yn blentyn mewn papiér mâché.'

Fe ddatblygodd Susan O'Byrne ei hagwedd unigryw tuag at fodlu fel dull o ddatrys problemau. A hithau'n fyfyrwr celf yng Nghaeredin, byddai wrth ei bodd yn cyfuno arlunio a gludwaith. Pan ddechreuodd weithio â seramegau, fe ddyfeisiodd ddull o drosi'r disgyblaethau hyn i dri dimensiwn: *'Dechreuais arlunio â weiren a darnau o glai gludwaith.'*

Fodd bynnag, bydd metel yn ehangu yn yr odyd wrth i glai grebachu ac felly 'daeth ceisio gwneud i bopeth lynu at ei gilydd yn sialens.' Ei hateb oedd proses bersonol iawn o wneud, gan ddechrau ag armatwr micro-weiren a rhoi arno ddarnau o glai porslen â phrint a phatrwm arnyn nhw i ffurfio croen:

'Caniateir i droellau a gwyradau naturiol y ffrâm weiren a chrebachiad y clai o'i chwmpas yn ystod y tanio bennu osgo'r anifail gorffenedig. Mae'r elfen o siawns yn y prosesau hyn yn ganolog i'm gwaith i.'

Bydd y dalennau o glai papur patrymog a roddir ar y ffrâm yn cael eu paratoi ymlaen llaw drwy ddefnyddio'r broses ganlynol:

- Gwneud stensil o'r patrwm sydd i'w ddefnyddio.
- Paentio drwy'r stensil â slip clai papur trwchus ar arwyneb fflat, llaith.
- Pario'r stensil i ffwrdd gan adael y patrwm wedi'i argraffu ar yr arwyneb.
- Paentio haen o slip clai papur tenau mewn lliw gwahanol dros y patrwm. (daw hyn yn gefndir i'r dyluniad)
- Pario'r ddalen gyfan i ffwrdd ac yna ei gludio mewn darnau ar y ffrâm weiren.

Bydd Susan yn gwneud cerfluniau anifeiliaid hefyd ar raddfa fach, gan ddechrau â maquette papiér mâché a chreu mowld er mwyn castio'r gwaith. Esbonia fod arwyneb fel tapestri'r *Lamb* yn adlewyrchu ei diddordebau mewn bwystoriau canoloesol: *'Byddaf yn meddwl am anifeiliaid bob amser fel rhannau o gasgliadau ac yn fy nghasgliad i, fel mewn hanes, mae'r oen yn cynrychioli rhywbeth ysgafnach mewn cyferbyniad i natur dywyllach yr afr, dyweder.'*

Tasgau

Gwnewch lun o anifail gan ddefnyddio dim ond llinellau ac yna gwnewch gopi o hyn mewn weiren. Llenwch y gwagle â darnau gludwaith o bapur neu ffabrig patrymog.

Gwnewch fodel mewn clai papur neu papiér mâché a'i addurno â gludwaith neu baent. Ceisiwch gipio cymeriad neu natur yr anifeiliaid unigol. Gwnewch fwystawr!

Gwylwch fideo o Susan O'Byrne wrth ei gwaith <https://www.youtube.com/watch?v=NTmskLM0JDw> ac yna ysgrifennwch adroddiad â chyfarwyddiadau clir. Defnyddiwch yr adroddiad hwn i gyfansoddi stori am gerflunydd sy'n dod ag anifeiliaid yn fyw!

Dyluniwch stensilau a'u torri allan o gerdyn. Defnyddiwch nhw i greu dalennau o bapur patrymog.

Adnoddau Pellach

Elizabeth Moignard a Philip Hughes,
Susan O'Byrne: Pum Chwaer a Choeden Deuluol,
Canolfan Grefft Rhuthun 2015

<http://www.susanobyrne.com/en/about.html>
[www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/
archif-arddangosfeydd/](http://www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/archif-arddangosfeydd/)

Susan O'Byrne, *Red-headed Finch*, 2015
ffoto: Bruno Gallagher

